**Hysbysiad Prosesu Data – Arholwyr Allanol**

Bydd y wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei defnyddio ar gyfer gweinyddu eich gwaith fel arholwr allanol gyda'r Brifysgol ac ar gyfer eich talu mewn perthynas â'r gwaith hwnnw. Bydd yn ofynnol i Brifysgol Aberystwyth, fel rheolwr data, gasglu, cadw, defnyddio a phrosesu gwybodaeth amdanoch ar gyfer dibenion sy'n ymwneud â'ch gwaith fel arholwr allanol **a ystyrir yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni eich cytundeb contractiol** â'r Brifysgol (gweler y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol Erthygl 6(1)(b)). Bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn cadw eich gwybodaeth yn unol â'n Rhestr Cadw Cofnodion ar ôl i'ch cyfnod fel arholwr allanol ddod i ben.

Dim ond copi o'r dogfennau hawl i weithio y byddwch yn eu cyflwyno i adran ar eich diwrnod cyntaf yn y swydd y bydd yr Adran Adnoddau Dynol yn ei gadw.

Bydd y wybodaeth yma yn cael ei chadw'n ddiogel gan yr Adran Adnoddau Dynol, ond gall fod ar gael i Archwilwyr Fisâu a Mewnfudo'r DU (tîm HEAT – Tîm Sicrwydd Addysg Uwch) fel rhan o archwiliad os gofynnir amdani.

Fel gwrthrych data, mae gennych ystod o hawliau mewn perthynas â'r data sydd gennym amdanoch chi:

https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/policies/dp/data-subject-rights/

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'r uchod, cysylltwch â'r Rheolwr Diogelu Data a Hawlfraint, Dr Jonathan Davies drwy infocompliance@aber.ac.uk.